
# Rheoli Dolydd Gwair

Mae dolydd gwair yn laswelltiroedd sy'n cael eu gadael i dyfu dros y gwanwyn a'r haf ac yn cael eu torri ar gyfer gwair. Mae rheoli gweirgloddiau yn olygu'r broses o adael planhigion sy'n blodeuo i hadu cyn iddynt cael eu torri, ac wedyn pori'r deunydd sydd yn weddill; cynigir hyn nifer o fanteision. Mae'r rhain yn ddulliau a ddefnyddir mewn dolydd gwair ar raddfa fawr, ond gall unrhyw un sydd â gardd neu fynediad i ofod gwyrdd greu dôl wair sydd yr un mor fanteisiol gyda chyfoeth o fflora a ffawna.

## Rheoli Dôl Wair yn Draddodiadol




Pori adladd yw pan ddefnyddir da byw i bori'r ddôl ar ôl iddi gael ei thorri. Mae'r dull yma'n helpu i sathru'r hadau i'r ddaear ac yn caniatáu i flodau gwyllt egino.

Mae gadael ymylon eich dôl heb eu torri yn rhoi ffynonellau bwyd a chysgod i bryfed.

Mae'r gribell felen yn blanhigyn ardderchog sy'n rheoli tyfiant glaswelltau.

Peidiwch byth ag aredig eich dôl wair! Bydd aredig yn dinistrio'r cyfoeth rhywogaethol sydd yn datblygu dros gyfnod o flynyddoedd

## Manteision Amgylcheddol

**Maen nhw'n storio carbon!** *Mae gwreiddiau'r glaswelltau a'r blodau gwyllt yn helpu i dynnu carbon atmosfferig i lawr drwy'r broses ffotosynthesis lle caiff ei storio wedyn yn y pridd.*


*Os yw'r dolydd yn cael eu rheoli'n dda, heb gael eu haredig,* **mae'r carbon yn parhau i fod dan glo yn y pridd***, sy'n fantais enfawr yn erbyn newid hinsawdd.*

*Mae defnyddio da byw yn rhan o'r cylch maethynnau, a rhaid i'r hyn sy'n mynd i mewn ddod allan – pŵ! Ar ddwysedd isel, mae hyn yn fuddiol drwy ychwanegu mwy o ddeunydd organig at y pridd,* **sydd wedyn yn cynyddu gallu'r pridd i storio mwy o garbon!**

**Mae dolydd gwair yn darparu cynefinoedd hanfodol** *nid yn unig i infertebrata sy'n ddibynnol ar dail, ond hefyd i bryfed peillio pwysig fel glöynnod byw a gwenyn.*

### Gwneud Eich Dôl Lawnt Eich Hun

**Gallwch sicrhau canlyniadau gwych gartref gan ddefnyddio'r dull canlynol:**




Ymddiriedolaeth Natur Gwent Wildlife Trust
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales